# Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Cyflogir gan:** | Cymru Global (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn flaenorol) |
| **Yn gyfrifol i:** | Pennaeth Climate Cymru |
| **Cyflog a phensiwn:** | £42,262 y flwyddyn<br>Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig yn ein cynllun pensiwn, a bydd WCIA yn talu cyfraniadau pensiwn hyd at uchafswm o 5% o'ch cyflog crynswth (o leiaf 4%) |
| **Telerau cyflogaeth:** | 10-mis, contract cyfnod penodol.<br><br>SYLWER: Mae bwriad i'r rôl hon barhau y tu hwnt i hyd y contract, hyd nes y bydd cyllid yn cael ei gadarnhau yn y dyfodol. Mae llwybrau sefydledig i gyllid yn y dyfodol ar waith, ond dim ond ar gyfer cyllid wedi'i sicrhau y gallwn gynnig rolau. |
| **Lleoliad:** | Gweithio o bell (gyda'r opsiwn o weithio hybrid yng Nghymru Global, y Deml Heddwch, Caerdydd)<br><br>SYLWER: Bydd mynychu digwyddiadau, cyfarfodydd a gweithgareddau yng Nghaerdydd yn rhan o'r rôl, gyda gofynion teithio achlysurol mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU. |
| **Oriau:** | 5 diwrnod yr wythnos (37  awr yr wythnos)<br>Mae polisïau gweithio hyblyg a TOIL ar waith.<br>SYLWER: Mae hyblygrwydd posibl gydag oriau os oes ffafriaeth gan yr ymgeisydd arweiniol ar gyfer gweithio rhan-amser. |
| **Lwfans gwyliau:** | 36 diwrnod, gan gynnwys gwyliau'r banc, pro-rata. |
| **Teithio:** | Os bydd angen i chi deithio fel rhan o'r swydd, bydd treuliau'n cael eu talu. |

## Ynghylch Climate Cymru

Mae Climate Cymru (https://climate.cymru/) yn fudiad o filoedd o unigolion, ac yn rhwydwaith o gannoedd o sefydliadau o bob sector yng Nghymru, sydd wedi cael eu dwyn ynghyd trwy gyfrwng gwerthoedd a rennir, a chydnabyddiaeth bod yr argyfwng hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu brys a theg. Rydym yn credu y dylai gweithredu gael ei lywio gan wyddoniaeth a lleisiau pobl ar draws Cymru.

Cynhelir Climate Cymru gan Cymru Global (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn flaenorol). Mae Cymru Global yn elusen sy'n ysbrydoli pobl yng Nghymru i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt. Gweledigaeth Cymru Global yw bod pawb yng Nghymru yn cyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

Mae Climate Cymru yn canolbwyntio ar effaith, yn ddeinamig, ac yn gyfrwng pwerus dros newid yng nghymdeithas Cymru. Rydym yn gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Rhoi pwysau ar y rheini sydd â phŵer i weithredu'n gadarn.
- Ymgysylltu'n gynhyrchiol â Llywodraeth Cymru.
- Gwneud yn siŵr bod lleisiau o ar draws Cymru yn cael eu clywed a'u cynrychioli
- Ysbrydoli a chysylltu ein rhwydwaith.
- Ehangu a chyflymu gwaith ein partneriaid
- Rhannu gwybodaeth bwysig a chyfleoedd gyda'n rhwydwaith a'r cyhoedd ehangach
- Dysgu gan Gymdeithas yng Nghymru, a thu hwnt
- Datblygu cefnogaeth gyhoeddus eang ar gyfer gweithredu
- Cynrychioli lleisiau a sefydliadau Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Mae rhan fawr o waith Climate Cymru yn cael ei wneud gan grŵp o staff a gwirfoddolwyr, wedi'u trefnu'n bedwar tîm bach:

1. **Meithrin y mudiad:**Gwasanaethu, cysylltu, ysbrydoli, clirio rhwystrau a dysgu oddi wrth fudiad mawr ac amrywiol o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys cynnal ystod o grwpiau a mannau ymgynnull â themau benodol.
2. **Cyfathrebu a newid naratif:** Adeiladu seilwaith cyfathrebu, adrodd straeon, uwchsgilio'r mudiad a chyflawni gwaith newid naratif yn seiliedig ar werthoedd.
3. **Eiriolaeth:** Gwleidyddiaeth, polisi ac ymgyrchoedd – gwaith ar y cyd dros Climate Cymru a chefnogi partneriaid i gyflawni eu nodau eirioli unigol.
4. **Ecosystem cyllid:** Amrywiaeth o ymyriadau i helpu i drwsio tirlun cyllid diffygiol i Gymru ac i'r mudiad.

## Crynodeb y Rôl

Prif amcan y Pennaeth Eiriolaeth yw cryfhau uchelgais wleidyddol ac awydd cymdeithasol am weithredu dros yr hinsawdd yng Nghymru, gan sicrhau bod polisïau hinsawdd uchelgeisiol a theg yn parhau i fod yn hyfyw yn wleidyddol ac yn cael eu cefnogi gan y cyhoedd yn ystod cyfnod o bolareiddio gwleidyddol cynyddol.

Bydd y rôl yn cynnwys cyflawni system gydgysylltiedig o ymyriadau sydd wedi'u dylunio i gryfhau cyfreithlondeb cyhoeddus dros weithredu, cydgysylltu eiriolaeth gyda mudiadau Cymru a'r DU, ochr yn ochr â gwella ansawdd y disgwrs cyhoeddus a gwleidyddol ar newid hinsawdd yng Nghymru. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys arweinydd strategol ar yr ymgyrch Cymru Gyda'n Gilydd, yn ogystal ag agweddau penodol ar gyflawni, gan gynnwys rhywfaint o waith polisi sy'n berthnasol i genhadaeth Climate Cymru.

Bydd y rôl hon yn arwain tîm eiriolaeth Climate Cymru ac yn eistedd ar grŵp arweinyddiaeth uwch ochr ein tri arweinydd tîm arall. Bydd y rôl yn cynnwys rheoli cyfeiriad strategol y gwaith gwleidyddiaeth, polisi ac ymgyrchoedd, wrth hwyluso cydweithrediad a chysylltiad â phrif feysydd gwaith eraill Climate Cymru er mwyn sicrhau gwaith ar y cyd effeithiol.

## Cyfrifoldebau penodol y rôl hon:

**Arweinyddiaeth a strategaeth tîm**

- Datblygu ac arwain strategaeth eiriolaeth Climate Cymru.
- Gweithio mewn partneriaeth ar draws y sefydliad i gael yr effaith fwyaf posibl, gan gynnwys ymdrechion ymroddedig o fewn strwythur uwch-reoli i gydgysylltu agweddau strategol ar draws gwaith mudiad, naratif ac eiriolaeth.
- Darparu rheolaeth llinell ar gyfer y tîm Gwleidyddiaeth, Polisi ac Eiriolaeth (a fyddai ar hyn o bryd yn golygu un adroddiad uniongyrchol).
- Ynghyd â darparu cyngor a chefnogaeth strategol i gydweithwyr a gwirfoddolwyr mewn timau eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau eirioli.
- Arwain y broses o ddatblygu ceisiadau am gyllid ac adroddiadau cynnydd ar gyfer y tîm Gwleidyddiaeth, Polisi ac Eiriolaeth, ochr yn ochr â chyfrannu at ddatblygu ceisiadau ehangach ar draws Climate Cymru.

**Cydgysylltu'r mudiad**

- Arwain datblygiadau'r dyfodol ar ymgyrch Cymru Together, gan gynnwys ymgysylltu â'r llofnodwyr a phartneriaid ehangach.
- Rhannu mewnwelediadau gwleidyddol a pholisi strategol ar draws ein rhwydwaith, a darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i bartneriaid pan fydd angen.
- Cynrychioli Climate Cymru o fewn rhwydweithiau, cynghreiriau a fforymau allanol, er mwyn hyrwyddo cydweithrediad a nodi cyfleoedd ar gyfer dylanwadu ar y cyd.

**Eiriolaeth polisi**

- Nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi a phenderfynwyr, gan sicrhau bod yr eiriolaeth yn parhau i fod yn ymatebol i'r tirlun gwleidyddol a pholisi.
- Cynnull a hwyluso cyfraniadau gan bartneriaid tuag at ymyriadau polisi ac ymgynghoriadau allweddol.
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd strategol ar draws tirlun gwleidyddol, polisi a chymdeithas sifil Cymru.
- Darparu cyngor polisi strategol i Lywodraeth Cymru, a chefnogi prosesau'r Senedd (e.e. Pwyllgorau), gan weithio gyda Climate Cymru a'n partneriaid.

**Newid Naratif**

- Gweithio gyda'r Pennaeth Cyfathrebu a Newid Naratif i sicrhau bod gweithgareddau eiriolaeth Climate Cymru yn cael eu cefnogi gan negeseuon effeithiol.
- Cyfrannu at ddatblygu negeseuon sy'n herio camwybodaeth ac yn cefnogi dadl gyhoeddus a gwleidyddol adeiladol ar yr hinsawdd a natur.
- Gweithredu fel llefarydd dros Climate Cymru lle bo'n briodol, gan gynrychioli'r sefydliad mewn cyfweliadau â'r cyfryngau, digwyddiadau a fforymau cyhoeddus.

## Manyleb Person

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos y priodoleddau canlynol, drwy eu cysylltu â phrofiadau a chyflawniadau perthnasol yn y datganiad cais am swydd.

**Gofynion hanfodol**

1. Ymroddiad i weledigaeth a gwerthoedd sefydliadol Climate Cymru a Cymru Global.
2. Profiad o ddatblygu a chyflawni strategaethau eiriolaeth sydd ag effaith fawr, sydd wedi cyflawni canlyniadau sefydliadol ac wedi rheoli risgiau'n effeithiol.
3. Profiad o arwain timau, darparu rheolaeth llinell, a galluogi cydweithrediad o fewn a thu allan i sefydliad.
4. Sgiliau meddwl strategol cryf, gyda'r gallu i nodi cyfleoedd, gosod blaenoriaethau ac alinio gweithgareddau amrywiol o amgylch nodau a rennir.
5. Gwybodaeth a phrofiad cryf o'r tirlun gwleidyddol a pholisi yng Nghymru.
6. Ymroddiad i weithio'n gydweithredol a chyfrannu at ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol ac o berfformiad uchel.
7. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol gan gynnwys datblygu cynigion cyllido, adrodd ar gynnydd i gyllidwyr ac eiriolaeth.

**Gofynion dymunol**

1. Rhuglder yn y Gymraeg, gyda'r gallu i ysgrifennu a chyflwyno cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

2. Arbenigedd polisi technegol mewn meysydd perthnasol.
3. Perthnasoedd sefydledig gyda gwleidyddion, llunwyr polisi, arweinyddion cymdeithas sifil, newyddiadurwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru sy’n berthnasol i genhadaeth Climate Cymru.
4. Profiad o ddatblygu cyfathrebiadau strategol, a chynrychioli sefydliad yn y cyfryngau fel llefarydd cyhoeddus.

## Proses Ymgeisio

- All applicants must complete the official Cymru Global Application for Employment form, available at Swyddi Gwag - Cymru Global
- **Rhowch yr holl wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais gan na fyddwn yn ystyried CVs na llythyrau eglurhaol fel rhan o'r cais.**
- Dylai’r holl ymgeiswyr lenwi’r ffurflen Cyfle Cyfartal. Mae’r rhain yn cael eu gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais ar ôl eu derbyn, ac nid ydynt yn cael eu rhannu gyda’r panel sy’n llunio’r rhestr fer neu gyda’r panel gyfweld.
- Dylech anfon eich cais drwy e-bost i recruitment@cymru.global
- Cysylltwch os oes gennych unrhyw ofynion mynediad er mwyn gwneud cais.
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **5yh, 17eg Awst 2026.** Rydym wedi ymestyn y dyddiad cau oherwydd nad oes staff ar gael dros wyliau'r haf. Os ydych chi eisoes wedi gwneud cais, diolch i chi am eich amynedd.
- Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth drwy e-bost at bob ymgeisydd. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni. Ni allwn fod yn gyfrifol am geisiadau sydd ddim yn cyrraedd, neu sy’n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau. Sylwer: y bydd hyn yn arafach nag arfer dros gyfnod y gwyliau.
- Os ydych yn cael eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol. Bydd cyfweliadau'n digwydd cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau. Byddwn yn cyfathrebu ag ymgeiswyr ar y rhestr fer ar adeg ddymunol i bawb sy'n cymryd rhan.
- Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw eirdaon nes bod cynnig amodol o gyflogaeth wedi cael ei wneud.
- Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu drwy e-bost.